
Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
2017-18

Cynnwys

Adran

- | | |
|------------------------|---|
| 1. Gwybodaeth am Ofcom | 1 |
| 2. Ein dull gweithredu | 2 |

Atodiad

- | | |
|--|---|
| A1: Ein trefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau | 6 |
|--|---|

1. Gwybodaeth am Ofcom

- 1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol y Deyrnas Unedig. Mae ein pencadlys yn Llundain, ac rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, a fideo ar alwad, telegyfathrebiadau llinell sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio. Mae Ofcom yn gwneud yn siŵr bod pobl yn y Deyrnas Unedig yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ar yr un pryd â sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu. Mae ein pwerau a'n dyletswyddau wedi'u nodi mewn nifer o Ddeddfau Seneddol.
- 1.2 Mae Ofcom yn cael ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau cyfathrebiadau, darlledu a gwasanaethau post. Mae ein cyllideb yn cael ei gosod gan y Llywodraeth ac, fel corff cyhoeddus, rydym yn ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo modd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflawni gostyngiadau termau real, tebyg-i-debyg yn ein gwariant.

Ofcom yng Nghymru

- 1.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn gwneud yn siŵr bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae gennym ddyletswydd statudol i wneud yn siŵr ein bod, ymysg pethau eraill, yn ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw ymhob rhan o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y Gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein Swyddfeydd Cenedlaethol yn gallu defnyddio adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.
- 1.4 Mae swyddfa Ofcom Cymru yng Nghaerdydd, ac yn cyflogi pedwar aelod staff amser llawn ac un aelod staff rhan amser. Mae'r rhan fwyaf o'r cydweithwyr hyn yn rhugl yn y Gymraeg, ac mae un yn dysgu Cymraeg – ar y cyd ag aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom, ac aelod o brif dîm Darlledu Ofcom sydd wedi adleoli'n ddiweddar i Gymru.¹ Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i annog staff i ddysgu Cymraeg ar fewnrwyd y staff. Hefyd, mae gwersi Cymraeg ar gyfer aelodau staff yn cael eu hariannu gan y sefydliad.

Ymrwymiad Ofcom i'r iaith Gymraeg

- 1.5 Mae Ofcom yn gweithio'n galed i gyflawni ein dyletswyddau parthed y Gymraeg. Rydym yn falch o'n hymrwymiad a'r ffordd rydym yn integreiddio'r iaith Gymraeg yn ein gwaith yn

¹ Mae Ofcom yn ariannu'r gwersi Cymraeg hyn, sy'n cael eu darparu ddwywaith yr wythnos i staff gan diwtor allanol sy'n dod i swyddfa Cymru Ofcom.

ymarferol. Rydym yn annog pobl i gyfathrebu ag Ofcom yn yr eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- 1.6 Yn 2017, gwnaethom gryfhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg drwy roi'r Safonau newydd ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys 141 o ymrwymadau i'n gwaith yn y Gymraeg, fel mwy o ymchwil defnyddwyr a gwybodaeth am ein gwaith.
- 1.7 Mae hysbysiad cydymffurfio terfynol Ofcom² gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi cael awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Ofcom.³
- 1.8 I adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus hwn, cafodd rôl newydd, sef Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg, ei chymeradwyo gan Fwrdd Ofcom. Cafodd y swydd ei llenwi ym mis Gorffennaf 2017.
- 1.9 Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg sy'n rheoli gweithgareddau iaith Gymraeg Ofcom – sy'n cynnwys gofynion cyfieithu, y cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu deunyddiau print a deunydd ar-lein. Yr Uwch Gyngorydd hefyd sy'n gwneud yn siŵr bod y sefydliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth safonau'r Gymraeg.

Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

- 1.10 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ers sawl blwyddyn, gan sicrhau ein bod yn deall gofynion y Comisiynydd yn iawn.
- 1.11 Rydym wedi mynychu sesiynau briffio sy'n cael eu trefnu gan y Comisiynydd, wedi ymateb yn brydlon i bob ymholiad ac wedi trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi am ddatblygiadau diweddar yn ein gwaith.

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/96920/Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf

³ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/media/media-releases/2016/ofcom-supports-new-welsh-language-standards>

2. Ein dull gweithredu

- 2.1 Mae Ofcom yn ymdrechu i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:
- cyflwyniad gweledol deunyddiau;
 - pryd a sut caiff y deunyddiau eu cyhoeddi, eu darparu neu eu harddangos;
 - maint, safle ac amlygrwydd y deunyddiau mewn unrhyw le cyhoeddus a'u fformat cyhoeddi;
- Bwriad ein dull gweithredu yw rhoi cyfle i ddinasyddion a defnyddwyr ddelio â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau drwy'r Gymraeg.
- 2.2 Rydym yn ceisio arloesi gyda'n cyfathrebiadau, ac am annog siaradwyr Cymraeg i gael mwy o ymwneud â'r maes. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, mae ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf i Gomisiynydd y Gymraeg yn ddogfen ddigidol ryngweithiol sydd ar gael i'w darllen ar-lein.⁴ Nod hyn yw cyflwyno ein gweithgareddau yn y Gymraeg mewn ffordd weledol a diddorol.
- 2.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn defnyddio maen prawf cyson. Os yw'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion a busnesau yng Nghymru neu'n debyg o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, yna byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

- 2.4 Rydym wedi cynyddu'r gwasanaethau a ddarparwn yn y Gymraeg. Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg a galluogi defnyddwyr i ryngweithio ag Ofcom yn eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.
- 2.5 Drwy weithredu'r Safonau newydd ar gyfer y Gymraeg yn 2017, cafwyd newid sylweddol yn nifer y geiriau rydym yn eu cyfieithu. Cafodd 450,000 o eiriau eu cyfieithu gan Ofcom i'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf⁵. Rydym yn ymrwymedig i gydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â chyfieithu.

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales/welsh-language-commitment>

⁵ Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Gorffennaf 2018

- 2.6 Ers rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith, rydym wedi cynhyrchu llawer mwy o gyhoeddiadau, datganiadau newyddion, tudalennau gwe, fideos ac apiau. Mae'r manylion llawn i'w cael yn ein Hadroddiad Blynyddol rhyngweithiol i Gomisiynydd y Gymraeg.⁶
- 2.7 Cafodd ein cyfrif Twitter Cymraeg, @OfcomCymraeg⁷ ei lansio ym mis Rhagfyr 2017. Cafodd y cyfrif hwn ei greu i rannu gwaith Ofcom yn Gymraeg. Mae'n darparu gwybodaeth wedi'i theilwra i siaradwyr Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg yn rhugl yn y Saesneg hefyd ac yn gwerthfawrogi negeseuon pwrpasol yn y Gymraeg, yn hytrach na darllen cyfieithiadau o'r negeseuon Saesneg ar gyfrif @Ofcom. Un enghraifft o hyn yw ein bod wedi cynhyrchu fideos byr yn Gymraeg ar ddibyniaeth ddigidol o'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Cafodd y rhain eu rhannu ar @ofcomcymraeg ac roeddynt yn llwyddiannus yn hyrwyddo ymgysylltu.
- 2.8 Mae ein dull o gyfieithu negeseuon trydar yr un fath â'r dull a ddefnyddiwn wrth gynhyrchu fersiwn Gymraeg o ddogfen. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar berthnasedd y neges a'i diddordeb tebygol i'r defnyddiwr yng Nghymru. Mae'r cyfrif @OfcomCymraeg yn profi'n werthfawr yn hyrwyddo ein gweithgareddau yn y Gymraeg ond mae'n dal yn ddyddiau cynnar ac mae gennym waith i'w wneud i gael mwy o ddilynwyr.
- 2.9 Rydym wedi arloesi drwy gynhyrchu ein hadnodd delweddu data cyntaf yn y Gymraeg⁸. Mae Gwiriwr Band Eang/Symudol Ofcom ar gael yn Gymraeg hefyd ac mae'n cael ei ddiweddarau'n gyson ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg.⁹
- 2.10 Rydym wedi cynhyrchu chwe fideo newydd yn y Gymraeg ar destunau amrywiol, o esbonio 'niwtraliaeth y rhyngwyd' i hyrwyddo ein llinell gymorth Gymraeg (0300 123 2023). Mae'r fideos hyn yn cael eu rhannu â'n cynulleidfa ar @OfcomCymraeg, ar ein tudalennau gwe ac ar ein Sianel YouTube. Mae ein fideos i'w gweld yn eu cyfanrwydd yn ein Hadroddiad Blynyddol rhyngweithiol i Gomisiynydd y Gymraeg.¹⁰ Mae ffigurau gwyllo iach ar gyfer ein fideos Cymraeg yn dangos bod ein cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio'r dull hwn o gyfathrebu.
- 2.11 Rydym wedi datblygu ein gwefan Gymraeg yn sylweddol,¹¹ trwy brosiect blwyddyn o hyd, i sicrhau bod ei nodweddion yn cyfateb i'r safle Saesneg. Mae hyn yn cynnwys mireinio'r offer 'chwilio' drwy'r Gymraeg, gwella'r gallu i newid iaith ar draws fersiynau symudol, a'i gwneud yn haws hidlo a dod o hyd i newyddion ac ymgynghoriadau yn y Gymraeg. Hefyd, mae 280 o dudalennau gwe wedi cael eu diweddarau a/neu eu cyfieithu dros y flwyddyn

⁶ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales/welsh-language-commitment>

⁷ <https://twitter.com/OfcomCymraeg>

⁸ Term cyffredinol yw Delweddu Data sy'n disgrifio technoleg sy'n helpu pobl i ddeall arwyddocâd data drwy ei roi mewn cyd-destun gweledol drwy ddefnyddio graffiau, graffeg rhyngweithiol ac ati. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/telecoms-research/mobile-smartphones/consumer-mobile-experience/interactive-data-2018>

⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/advice/ofcom-checker>

¹⁰ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales/welsh-language-commitment>

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/features-and-news/website-update>

ddiwethaf.¹² Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol Cymraeg rhyngweithiol.

- 2.12 Mae'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed bob dydd yn Ofcom Cymru. Mae ein digwyddiadau yn naturiol ddwyieithog i sicrhau ein bod yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid i gyfathrebu â ni yn Gymraeg. Mae ein digwyddiadau i randdeiliaid yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog. Mae cyflwyniadau'n cael eu harddangos yn ddwyieithog gan ddefnyddio dwy sgrin. Mae cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn cael ei ddarparu ymhob digwyddiad. Mae fideo a gafodd ei ffilmio yn nigwyddiad Cynllun Blynyddol 2018 Ofcom, ac sydd wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol rhyngweithiol, yn dangos hyn yn glir.
- 2.13 Fe y nodir yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, rydym wedi mabwysiadu proses ffurfiol o bennu'r canlyniadau i siaradwyr Cymraeg mewn ffordd fwy strwythuredig a mesuradwy wrth wneud penderfyniadau polisi. Gwnawn hyn drwy ein Cynllun ar gyfer Gweithredu Safonau'r Gymraeg.¹³ Mae wedi'i fodelu ar fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Ofcom i werthuso canlyniadau i ddefnyddwyr. Mae'n golygu y gallwn bellach archwilio sut mae Ofcom yn ystyried buddiannau siaradwyr Cymraeg pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio. Mae manylion ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol Cymraeg rhyngweithiol.
- 2.14 Mae ein hymgyngoriadau mawr¹⁴ yn cynnwys ffurflen ymateb Gymraeg, i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu rhoi adborth a sylwadau yn eu dewis iaith.

Cwynion

- 2.15 Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion am ein gweithgareddau yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Trefn Gwyno Ofcom yn esbonio sut rydym yn bwriadu delio â chwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae'r Drefn Gwyno i'w gweld ar ein gwefan¹⁵ ac ar ffurf copi caled yn swyddfa Ofcom Cymru. Caiff aelodau'r cyhoedd gysylltu â ni unrhyw bryd i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg neu gwynion cysylltiedig, ac rydym yn eu hannog i wneud hynny ar y wefan.

¹² Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Gorffennaf 2018

¹³ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0008/103022/safonau-gymraeg-cynllun-gweithredu.pdf

¹⁴ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements>

¹⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales>

A1. Ein trefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A.1.1 **Asesu a oes angen cyfieithu.** Os yw dogfen (er enghraifft, ymgynghoriad, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we neu e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar fater i randdeiliaid) yn ymwneud â materion sy'n effeithio – neu sy'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol i – ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, yna, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar yr un pryd ag y cyhoeddir y fersiwn Saesneg.
- A.1.2 **Trafod gofynion cyfieithu'n rheolaidd.** Mae penderfyniadau i gyfieithu yn cael eu trafod ac yn cael eu cytuno arnynt mewn cyfarfod wythnosol rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg, a'n prif dîm cyfathrebiadau yn Llundain.
- A.1.3 **Gweithio'n agos gyda thimau polisi.** Bydd yr unigolyn sy'n arwain prosiect yn cael gwybod gan y tîm cyfathrebiadau ac Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg, bod angen cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen. Mae'r gofyniad hwn wedyn yn cael ei gynnwys yn ein hamserlen gyhoeddi i sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn 'llai ffafriol' na'r fersiwn Saesneg a'i bod yn cael ei chyhoeddi yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A.1.4 **Gweithio'n agos gyda chyfieithwyr.** Mae gan Ofcom Cymru berthynas waith gadarnhaol iawn â'n cyfieithwyr. Maent yn cael gwybod cyn gynted â phosibl ymlaen llaw am y gofynion cyfieithu, a bydd amserlen dychwelyd gwaith yn cael ei chytuno arni sy'n cyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Mae amcangyfrif o nifer y geiriau hefyd yn cael ei ddarparu lle bo hynny'n bosibl. Mae ein cyfieithwyr bob amser yn cyfieithu dogfennau Ofcom i'r safon uchaf ac yn brydlon. Mae ganddynt hefyd eirfa o dermau cymhleth Ofcom i wneud yn siŵr bod cyfieithiadau'n gyson. Maent yn ceisio sicrhau bod cyfieithiadau Gymraeg mor glir a dealladwy â phosibl, drwy ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A.1.5 **Gwirio ansawdd.** Mae dogfennau Cymraeg wedyn yn cael eu prawf-ddarllen gan Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg, cyn cael eu hanfon at y tîm cyfathrebiadau i'w cyhoeddi ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg.